------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 148(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

(60 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad 'Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU' - GOHIRIWYD TAN 4 GORFFENNAF 2023

(0 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Diwygio’r tribiwnlysoedd ac esblygiad y maes cyfiawnder yng Nghymru

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rhaglen Imiwneiddio Genedlaethol i Gymru

(30 munud)

## 7 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg

(30 munud)

## 8 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Diweddariad ar ddeddfwriaeth amgylchedd bwyd iach

(30 munud)

## 9 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023

(15 munud)

**NDM8301** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2023.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Ymateb Llywodraeth Cymru

## 10 Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

(5 munud)

**NDM8303** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36: Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a) Adrannau 2-5;

b) Adran 1;

c) Teitl hir.

## 11 Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Hysbysiad Ffurfiol o Gydsyniad Ei Fawrhydi

(5 munud)

## 12 Cyfnod 4 y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

(15 munud)

**NDM8308** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd

## 13 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein

(15 munud)

**NDM8302** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Diogelwch Ar-lein i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Troednodyn:

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mawrth 2022 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y

Swyddfa Gyflwyno ar 28 Medi 2022, 8 Tachwedd 2022, 21 Rhagfyr 2022 a 1 Mehefin 2023 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gellir gweld copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

Bil Diogelwch Ar-lein - Senedd y DU *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol (Memorandwm a Memorandwm Rhif 2)

Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol (Memorandwm Rhif 3 a 4)

Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol (Memorandwm Rhif 5)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 2)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 3 a Rhif 4)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 5)

## 14 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 28 Mehefin 2023

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 22/06/2023 i'w hateb ar 27/06/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ59749 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn cefnogi perchnogion tai yn Nwyrain De Cymru sy'n wynebu taliadau morgais uwch?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OQ59767 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo datblygu economaidd yng nghanolbarth Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

3 OQ59737 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ystâd y GIG yng Ngogledd Cymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

4 OQ59747 **(w)**

Pa asesiad mae'r Prif Weinidog wedi ei wneud o'r manteision o gyflwyno dyletswydd sifig i bleidleisio mewn etholiadau Cymreig?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ59734 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y cleifion sydd wedi cael mynediad at apwyntiadau gyda deintyddion y GIG yn 2022-23?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

6 OQ59766 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o lwyddiant treialu sesiynau cyfoethogi ychwanegol yn ysgolion Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

7 OQ59728 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl â nam ar eu golwg?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ59741 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

9 OQ59742 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella canlyniadau iechyd yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ59729 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i bobl o ffydd wrth lunio elfen addysg cydberthynas a rhywioldeb y Cwricwlwm i Gymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OQ59727 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gynyddu'r ddarpariaeth o lety rhent?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

12 OQ59753 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi clybiau a chymdeithasau chwaraeon yn Sir Ddinbych?